PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 389 | MAI 2016

Da iawn Ianto!



t.8



Beicwyr Blewog

t.13



Cyffro'r Ewros

t.10

# Eisteddfod Penrhyn-coch 2016



Ifan Williams o Dregaron yn cipio'r wobr gyntaf ar y Llefaru Blwyddyn 1 a 2.



Enillydd Unawd Offeryn Cerdd dan dan 18 oed, Gronw Downes o Benrhyn-coch.



Mari Aerona o Benrhyn-coch yn cipio'r wobr gyntaf am yr Unawd, Dosbarth Derbyn ac iau.

Lluniau: Arvid Parry Jones



Dwy chwaer o Benrhyn-coch yn ennill dwy gystadleuaeth, Genny Tagoe yn ennill cystadleuaeth Llefaru Blwyddyn 3 a 4, gyda Uana Tagoe yn ennill yr Adrodd Blwyddyn 5 a 6.



Bethan Evans, Llandysul, Llywydd y Prynhawn a Dr Zoe Morris-Williams, Caerdydd - Llywydd y nos. Cyn athrawes a chyn ddisgybl yn Ysgol Trefeurig.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter a'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elinhefin@gmail.com
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Mehefin –** Deunydd i law: Mehefin 10 Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 22

**MAI 15-21** Wythnos Cymorth Cristnogol.

**MAI 19** Nos Iau Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Melindwr yn Neuadd Capel Bangor am 7.30. Croeso i bawb.

**MAI 22** Nos Wener Lansio CD Penillion i'r Leri. Clwb Nos Wener yn y Llew Du, Tal-y-bont am 8.00.

**MAI 27** Nos Wener Noson goffi Pwyllgor Henoed Llandre a Bow Street yn Neuadd Rhydypennau am 7.00.

**MAI 30 – MEHEFIN** 4 Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Sir y Fflint

**MEHEFIN 2** Nos Iau Bara Caws yn cyflwyno 'Allan o diwn': sgwennu a pherfformio Emyr 'Himyrs' Roberts yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

**MEHEFIN 4** Dydd Sadwrn Rali CFFI Ceredigion ym Merthlwyd, Tal-y-bont. Dawns i ddilyn ar fferm Neuadd Fawr, Tal-y-bont gyda Band Tom Collins.

**MEHEFIN 5** Dydd Sul Cymanfa Ganu'r Rali ym Methel, Tal-y-bont, am 7.00.

**MEHEFIN 7-8** Dyddiau Mawrth a Mercher Arad Goch yn cyflwyno Diwrnod Hyfryd Sali Mali yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth am 10.00 a 13.00 ar y ddau ddiwrnod.

**MEHEFIN 9** Nos Iau Cyfarfod Blynyddol Neuadd Rhydypennau am 7.30pm. Croeso i bawb.

**MEHEFIN 11** Dydd Sadwrn Sioe Sir Ceredigion Aberystwyth yng nghaeau Gelli Angharad Capel Bangor Gweler http://www.aberystwythshow.com/index.html.

**MEHEFIN 17** Nos Wener Barbeciw blynyddol Cartref Tregerddan yn y Cartref am 6.30 Mynediad: oedolion £5; plant £2.

**MEHEFIN 23** Dydd Iau Refferendwm Ewrop.

**MEHEFIN 24** Nos Wener Caws, gwin a chân yn Eglwys St Pedr, Elerch gyda Côr Meibion Aberystwyth, Llond Llaw (Pontrobert) ac artistiaid lleol Llywydd: Iola Wyn, Caerfyrddin am 7.00 Mynediad: £7.

**MEHEFIN 26** Dydd Sadwrn. Taith Cymdeithas y Penrhyn i Wrecsam. Manylion gan Ceris Gruffudd.

**GORFFENNAF 8** Nos Wener Sioe Ffasiwn yng Ngwesty'r Conrah, Aberystwyth er budd yr elusen Gwirfoddolwyr Hosbis yn y Cartref Aberystwyth a'r Cylch. Rhagor o fanylion i ddod maes o law.

**GORFFENNAF 9** Pnawn Sadwrn Te Hufen a Mefus yn Neuadd Eglwys Penrhyn-coch rhwng 3.00-5.00 yp.

Ymunwch â grŵp Facebook Ytincer

**Camera'r Tincer** Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Ebrill 2016

**£25** (Rhif 262) Elizabeth Evans, Moorlands,Y Borth
**£15** (Rhif 235) Eurgain Rowlands, Hafod y Heli, Y Borth
**£10** (Rhif 75) Howell Ebenezer, 19 Bryncastell, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn **Mercher Ebrill 20**.

## 30 MLYNEDD YN OL



Tîm pêl-droed Aelwyd Rhydypennau, enillwyr Cwpan Pantyfedwen i Aelwydydd. Rhes gefn: o'r chwith: Emyr Pugh-Evans, Alun Davies, Ian Evans, Timothy James, Gareth Jenkins, Andreas Huws, Ian Le Grice. Rhes flaen: Andrew Roberts, Paul James, Paul Murray, Ioan Bebb, Aled Roberts. Tu blaen: Peter James. Llun: Bill Evans (o *Dincer* Mai 1986)

### Te Prynhawn Sioe Aberystwyth yn llwyddiant ysgubol

Er mwyn codi arian ar gyfer y sioe, cynhaliwyd Te Prynhawn ddydd Sul 24 Ebrill yn Ffermdy Maesbangor. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol, gyda thros 100 o bobl yn dod i fwynhau'r awyrgylch hwyliog a chyfeillgar, a'r bwyd blasus wrth gwrs! Daeth rhai i ymuno yn y daith Land Rovers ac rydym yn ddiolchgar iawn i Cambrian Garages am ei help i drefnu. I rai o aelodau'r Pwyllgor, roedd cynnal y te yn newid byd llwyr o'r gwaith o drefnu'r sioe ei hun, ond yn her o fath gwahanol! Yn y llun mae Delyth Morgan Pwll-glas, trefnydd y te prynhawn yn llanw gwydrau Arnold a Cynthia Evans perchnogion Maesbangor oedd wedi bod gyda'r holl deulu yn weithgar iawn yn paratoi y ffermdy ar gyfer y digwyddiad. Dwedodd Delyth "rydym yn ddiolchgar i'r holl wirfoddolwyr a helpodd i wneud y digwyddiad yn brofiad bythgofiadwy, o gogyddion i staff gweini, ac i'r rhai a ddaeth i rannu'r diwrnod arbennig hwn gyda ni."



Llun: Arvid Parry Jones

**Yn galw gwirfoddolwyr**

Rydym ni'n awyddus iawn i ddenu stiwardiaid gwirfoddol i'n helpu ni gyda'r gwaith paratoi ac ar ddiwrnod y sioe. Mae cyfleoedd gwirfoddoli ar gael yn yr adrannau ceffylau, gwartheg, defaid a dofednod ac yn yr adrannau cneifio, cynnyrch a gweinyddol. Os oes gennych chi a/neu ffrind ddiddordeb, anfonwch neges at abershow@outlook.com gan nodi ym mha adran yr hoffech chi wirfoddoli ac a fyddwch chi ar gael drwy'r dydd neu ar amser penodol. Byddwch chi'n cael tocyn mynediad a chinio am ddim. Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol arnoch chi gan y byddwn ni'n esbonio'ch dyletswyddau ymlaen llaw. Dewch i ymuno â'n tîm o wirfoddolwyr gweithgar, ni fyddai'r sioe yn gallu mynd yn ei blaen hebddyn nhw.

### Telerau hysbysebu

Tudalen lawn – £120
Hanner tudalen – £80
Chwarter tudalen – £50
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn – £40 y flwyddyn (10 rhifyn – misol o Fedi i Fehefin; 6-9 mis £4 y rhifyn; llai na 6 mis (h.y. 1-5 mis) £6 y rhifyn. Cysyllter â'r Trysorydd)

Porchell
Eich cigydd lleol
PEN-Y-GARN
FFON 828 447
LLUN: 9-5.30
MAW-SAD 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ

01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
47 Heol Maengwyn Machynlleth SY20 8EB
Swyddfa'r Ysgubor, Alexandra Rd. Aberystwyth SY23 1LN
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006




# Llun y mis

Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street.
Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/




Rali hen geir

# Penillion i'r Leri




Mewn noson ar 22 Ebrill yn y Blac, Tal-y-bont, lansiwyd CD 'Penillion i'r Leri'. Ysgrifenwyd geiriau nifer o'r caneuon gan feirdd lleol - Carys Briddon, Bleddyn Owen Huws, David Jones a Siân Saunders, gyda Gwilym Morus-Baird yn cyfansoddi'r alawon. Clywir lleisiau nifer o gantorion lleol hefyd yn canu dwy o'r caneuon. Cynlluniwyd y clawr trawiadol gan Ruth Jên. Gellir prynu copi o Penillion o'r Leri am £7 trwy Fal Jenkins.01970 832560

## GOGINAN

### Marwolaeth

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Audrey Askam, Randells, ganol mis Ebrill. Roedd wedi byw am dros 35 mlynedd yng Ngoginan ond er dros y flwyddyn diwethaf roedd wedi mynd mewn i gartref yn Llanelwy lle roedd yn agosach i'w dwy ferch a lle roedd yr wyrion yn medru galw i'w gweld yn aml. Mae ei chymdogion a ffrindiau o Eglwys St Paul Aberystwyth yn gweld ei heisiau yn fawr. Cynhaliwyd gwasanaeth coffa iddi yn yr Eglwys ar Fai 8fed. Cydymdeimlwn gyda'r teulu oll.

# Etholiad 2016 yng Ngheredigion



Cynhaliwyd yr etholiad cyffredinol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddydd Iau, 5 Mai. Yng Ngheredigion roedd chwe ymgeisydd, a dyma oedd y canlyniad:

Elin Jones (Plaid Cymru) 12,014 (40.7%)
Elizabeth Evans (Dem. Rhydd.) 9,606 (32.6%)
Gethin James (UKIP) 2,665 (9.0%)
Felix Aubel (Ceid.) 2,075 (7.0%)
Iwan Wyn Jones (Llaf.) 1,902 (6.5%)
Brian Dafydd Williams (Gwyrdd) 1,223 (4.1%)

Mwyafrif: 2,408 (8.2%)
Nifer pleidleisiau: 29,485 (56.1%)

Felly fe etholwyd Elin Jones i gynrychioli Ceredigion am y pumed tro ers 1999 yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Fe gafodd Plaid Cymru bron yn union yr un bleidlais ag a gawsant yn 2011, ond fe aeth pleidlais y Dem. Rhyddion i lawr ychydig dros 800 o bleidleisiau, felly fe gynyddodd mwyafrif Elin Jones o 1,777 bum mlynedd yn ôl i 2,408 y tro hwn, cynnydd o dros 600. Doedd UKIP ddim yn sefyll yn yr etholaeth yn 2011, ond fe gafodd Gethin James 9% o'r bleidlais y tro hwn, ychydig yn is na'r cyfartaledd i UKIP ym mhob etholaeth, sef 12.5%.

Mae'n ddiddorol nodi hefyd fod pleidlais PC yn uwch yn y ddau etholiad Cynulliad diwethaf, sef 2011 ac eleni, na'r ddau etholiad San Steffan diweddaraf, sef rhai 2010 a 2015, a hynny o ryw 1,500 pleidlais, er bod mwy o bobl yn pleidleisio yn etholiadau San Steffan. Mae hyn yn awgrymu fod rhai pobl yn cefnogi Elin Jones ar gyfer y Cynulliad ond yn cefnogi plaid arall ar gyfer San Steffan.




Yn yr ymgyrch etholiadol roedd pwyslais PC yn bennaf ar record Elin Jones fel AC Ceredigion, yn enwedig ei gwaith yn ymladd yn lew iawn i gadw gwasanaethau iechyd yn Ysbyty Bron-glais, a hefyd yn Nhregaron, Aberaeron ac Aberteifi.


Bu hefyd yn ymgyrchu'n gyson dros welliannau i ffyrdd a rheilffyrdd yn y sir ac i wella cysylltiadau band llydan a chael gwell signalau ffôn yn ogystal â gweithio dros ffermwyr a busnesau'r sir yn gyffredinol.

Yn Rhanbarth Canol a Gorllewin Cymru, mae yna wyth sedd etholaeth, gan gynnwys Ceredigion, a hefyd bedair sedd rhanbarth. Fe gadwodd Simon Thomas, Aberystwyth, ei sedd ranbarth, felly fe fydd yntau yn dychwelyd i'r Cynulliad am gyfnod arall. Yr un arall sy'n byw yng Ngheredigion a etholwyd y tro hwn yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd newydd, sef Dafydd Llywelyn o Landysul, a drechodd Christopher Salmon, y cyn Gomisiynydd.

## Lawnsio Llyfr er Budd Elusennau

Lawnsir *Basned o gawl* - Wil Griffiths, yn y Morlan Aberystwyth, ar Nos Iau 26 Mai am 7.30 o'r gloch. Gwneir y lawnsio gan Dai Jones Llanilar ynghyd â Chôr Meibion Aberystwyth ac eraill. Bydd holl elw y llyfr yn mynd i achos da – Hospis y cartref ac Ambiwlans Awyr Cymru. Croeso cynnes i bawb.

Gellir prynu copïau (pris £7) trwy siopau llyfrau, siopau pentrefi lleol, siop yr Hospis a'r Ambiwlans Awyr, ar y ffôn 01970 623334 neu wilmair@btinternet.com




## Cartref Tregerddan

Cynhelir y
**Barbeciw blynyddol**

**Nos Wener 17eg Mehefin**
am 6.30

Mynediad **£5** i oedolion a **£2** i blant.

Dathlu Diwrnod Cenedlaethol Cartrefi Gofal



# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

### Suliau Pen-llwyn

*Mai*

**22** 10.00 Rhidian Griffiths
**29** 10.00 Terry Edwards

*Mehefin*

**5** 5.00 Bugail Cymun
**12** 5.00 Bugail
**19** 2.00 Beti Griffiths
**26** Gŵyl yr Ysgol Sul 5.00 Dyffryn Carwyn Arthur





**Morgan Jac Lewis Bronllys, Capel Bangor, ddaeth yn ail yn yr unawd i blant blwyddyn 2 ac Iau yn Eisteddfod Penrhyn-coch. Aeth ymlaen i gael ail yn yr unawd i blant blwyddyn 2 ac iau a cyntaf yn y llefaru yn Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth. Cyw o frid!! – dyma lun o'i fam Angharad Lewis (née Rees, Capel Seion gynt) yn cystadlu yn Eisteddfod Penrhyn-coch yn 1991. O boptu iddi mae Gregory Vearey- Roberts a Rheinallt Lewis.**

### Er Cof am Nyrs yr Ardal

Collwyd yr aelod hynaf o gapel Pen-llwyn, sef Nyrs Jones fel y gelwid hi, a fu yn ffyddlon iawn i'r oedfa am flynyddoedd lawer.

Ganwyd Mrs Gladys Jones yn Llechryd yn 1920, yn un o bedair o ferched, ond collodd ddwy chwaer yn ifanc iawn. Gadawodd yr ysgol yn bedair ar ddeg oed i wasanaethu, ond 'roedd ei bryd ar fynd i nyrsio. Ar ddechrau y rhyfel, yn hytrach na mynd i weithio yn ffatri bowdwr yn Nhrecwn, fe welodd ei chyfle, i fod yn nyrs, ac aeth i ysbyty Southampton.

Gwnaeth y cyfnod hwn argraff mawr arni, a thrwy ei hoes, cyfeiriai at ei phrofiad yn trin anafiadau erchyll y milwyr oedd yn dychwelyd o Ffrainc.

Ar ôl y rhyfel priododd â Vincent Jones o Gydweli, ac ymgartrefu yn Aberteifi. Cafodd ddwy ferch, Sandra a Shirley. Bu farw ei phriod yn 1953, gan ei gadael hi, a'r ddwy ferch,un yn bedair oed, a'r llall yn dri mis.

Yn 1960 daeth i fyw i Stâd Pen-llwyn, a derbyn swydd fel bydwraig a nyrs ardal Capel Bangor a'r cylch. Ymfalchiai yn y ffaith ei bod wedi gwasanaethu mewn llawer iawn o enedigaethau yr yr ardal.

Ei diddordeb mwyaf oedd yr ardd, roedd pob amser yn werth gweld yr holl flodau, a bu iddi unwaith ennill cwpan am yr ardd orau yn y pentref.

Wedi ymddeol am flwyddyn, cynigiwyd iddi swydd arall fel Metron, yng nghartref preswyl Glyn Nest, yng Nghastellnewydd Emlyn. Ni phylai ei hegni.

Balch iawn oedd o'u hwyrion, ac yn ddiweddar ei gorwyres fach Matilda. 'Roedd yn hynod o falch pan benderfynodd Iwan ei ŵyr, ei dilyn yn yr un maes. Mae erbyn hyn yn feddyg y galon ym Mryste. Hefyd Bethan ei hwyres sydd yn ddarpar feddyg, rhyfedd o fyd, a hithau yn cael ei hyfforddiant yn yr un ysbyty a'i mam-gu, yn Southampton.

Yn ei hwythdegau, cafodd gwymp yn ei chartref ym Mhen-llwyn, a symudodd at Sandra a Philip, i hen gartref teulu ei phriod, ym Mhentywyn, Cydweli, ble y cafodd y gofal bosib dros dair blynedd. Yna a hithau yn dioddef o'r afiechyd dementia, aeth i mewn i gartref preswyl Bryn Illtyd ym Mhorth Tywyn, ble y cafodd eto sylw a gofal cynnes.'Roedd bob amser yn hapus i weld unrhyw un a fyddai'n galw, o'i hen gyfoedion, a hefyd pan y galwodd gweinidog Pen-llwyn, y Parchg Wyn Morris.

Do, cafodd Nyrs Jones amseroedd caled, ond gwnaeth y gorau o bopeth a ddaeth i'w rhan.

Cynhaliwyd yr angladd ar Ebrill y 23ain dan ofal y Parchg Wyn Morris. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Sandra a Philip, Shirley a David ac unrhyw gysylltiadau eraill.

### Marwolaeth

Trist oedd clywed am farwolaeth Sargant Bernard Guy, Roserina, Cefnmelindwr, a gymerwyd i'r ysbyty ar Mai 5ed. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i fab ac â'i ferch a'r cysylltiadau i gyd.

### Ysbyty

Adferiad buan i Mr John Howells, Pencoed, a fu yn yr ysbyty am gyfnod byr yn ddiweddar.

### Pen blwydd

Dywedodd aderyn bach wrthom, fod Mr Gwynfor Jones, Llwyniorwerth Uchaf, yn dathlu pen blwydd arbennig y mis hwn. Dymuniadau gorau iddo, a phen blwydd hapus iawn. Fel y gwyddoch bu Mr Jones yn Gynghorwr yma am flynyddoedd.

### Baban Newydd

Ganwyd merch fach i Mr a Mrs Richard a Gabby Howells, "Tomos" Llongyfarchiadau a chroeso i'r baban newydd. Dymuniadau gorau i chi eich tri.

### Hwyl Hwyr

Mae'r Clwb Cristnogol uchod wedi dod i ben tan mis Medi. Diolch i'r Parchg Derrick Adams am baratoi y storïau Beiblaidd, y crefft a'r gêmau, pob wythnos. Cafodd plant y clwb hwyl fawr yn ystod y tymor.

### Merched y Wawr Melindwr

Croesawodd Delyth Davies ein Llywydd Carys Stevens, un o wirfoddolwyr Hosbis yn y Cartref Ceredigion I roddi hanes gwaith yr elusen newydd yma i ni. Merch o Swyddffynnon yw Carys ac ar ôl bod yn nyrsio yn Ysbyty y Waun yng Nghaerdydd daeth yn ôl i weithio ar ward Meurig yn Ysbyty Bron-glais. Mae hefyd wedi bod ynghlwm a Hosbis Hafren, a wedi iddi hi a nifer o bobl eraill weld fod yna fwlch mewn gwasanaeth lliniarol yn yr ardal aethant ati i sefydlu Hosbis yn y

Cartref Ceredigion. Ar hyn o bryd mae ganddynt ddwy siop yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr ar stryd Heol y Wig a mae yna lawer o wirfoddolwyr yn ymweld â chleifion yn eu cartrefi. Y gobaith yw y bydd y gwasanaeth yma yn ymestyn i Aberaeron a Thregaron yn y dyfodol agos. Cafwyd noson ddiddorol iawn gyda Carys yn sôn am y troeon diflas a hapus sydd ynghlwm â gwaith fel yma. Diolchodd Delyth yn gynnes iawn iddi a chyflwynodd rodd i'r elusen. Gwnaethpwyd y te gan Elinor Jones a Gwenda Morgan ac enillwyd y raffl gan Megan Issac. Cyn troi am adre etholwyd swyddogion am y flwyddyn nesaf.

**Llywydd**: Angharad Jones
**Is-lywydd**: Lynne Davies
**Ysgrifennydd**: Beti Daniel
**Is-ysgrifennydd**: Nia Davies
**Trysorydd**: Llinos Evans
**Is-drysorydd**: Elinor Jones

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Neuadd Rhydypennau
NOSON GOFFI
Nos Wener
27 Mai - 7 yh
Pwyllgor Henoed Llandre a Bow Street

# Cwmnïau Drama'n Brysur

Fel rhan o ddathliadau 20-mlwyddiant sefydlu cwmni drama Licris Olsorts (dan gyfarwyddyd y ddiweddar Buddug James Jones), penderfynwyd y byddai'n dda o beth i'r cwmni ail-ymweld â hen ffefryn – un or tair drama gyntaf i'r cwmni eu perfformio yn 1996 – sef ffars Rhiannon Parri, 'Helynt y Mefus'. Mae un aelod o'r cast – Janet Roberts – hyd yn oed yn perfformio'r un darn ugain mlynedd yn ddiweddarach! Wedi derbyn yr ail wobr yng ngŵyl ddrama'r Groeslon, ger Caernarfon ddiwedd Ebrill, rhannu'r drydedd wobr wnaeth y cwmni yng ngŵyl Corwen yn ddiweddar.

Fel rhan o'r dathliadau 20 mlwyddiant hefyd, penderfynwyd ail-sefydlu cangen iau y cwmni, Doli Micstiyrs, i roi cyfle i rai o actorion iau yr ardal ddangos eu doniau ar y llwyfan. Mae nifer o blant yr ardal i'w gweld yn aml yn perfformio mewn prif rannau yn rhai o sioeau Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, ond prin yw'r cyfloedd perfformio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r criw o bump, (Heledd Davies, Glain Llwyd Davies, Gwenllian King, Oisín Lludd Pennant ac Ifan Clubb) wedi bod yn perfformio 'Ar y Prom' gan Sion Pennant ac fe gafodd y pump lwyddiant yn eu cystadleuaeth gyntaf yng Ngŵyl Ddrama Corwen, drwy ennill y cwpan yn y gystadleuaeth dan 18 oed. Hefyd, cafodd Heledd Davies y gwpan am y prif actor / actores dan 18 oed.

Llongyfarchiadau mawr iddynt a phob hwyl i Doli Micstiyrs yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd y Fflint, ac i'r ddau gwmni yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni, ble byddant yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, ac un rhiant yn cystadlu yn erbyn ei merch! Tybed pwy fydd yn rhagori?




Heledd Davies



# Taith clybiau pêl-droed i ddathlu cyffro'r Ewros gyda'r cefnogwyr








Gydag ymgyrch Cymru ym Mhencampwriaeth UEFA Euro 2016 yn Ffrainc yn nesau, mae S4C wedi trefnu taith clybiau ar hyd a lled Cymru i ddathlu cyffro'r Ewros gyda'r cefnogwyr.

Bydd S4C yn dangos pob un o gemau grŵp yn fyw yn y gystadleuaeth Euro 2016 fis Mehefin, ond cyn croesi'r Sianel i Ffrainc bydd y tîm cyflwyno yn mynd ar daith i bump o glybiau pêl-droed Cymru. Ac fe fydd pob panel yn cynnwys un o gyn chwaraewyr rhyngwladol Cymru, pyndits sy'n fodlon cynnig barn liwgar a difyr.

Yn y pum digwyddiad yng nghlybiau pêl-droed MBi Llandudno, Bangor, Y Bala, Penrhyn-coch a Chaerfyrddin ym mis Mai, byddan nhw'n trafod pêl-droed, cicio pêl neu ddwy a chael tipyn o sbort.

Ac mae croeso i gefnogwyr ymuno â chriw cyflwyno Euro 16 S4C yn y digwyddiadau rhad ac am ddim, Ym Mhenrhyn-coch nos Fercher 25 Mai bydd y cyflwynydd Dylan Ebenezer yn cadw cwmni i'r cyn chwaraewyr Malcolm Allen, ac Owain Tudur Jones.

Yn ogystal â holi'r sêr pêl-droed am obeithion Cymru yn y gystadleuaeth, bydd cyfle i gefnogwyr ifanc ddangos eu doniau a chael tips gan y cyn-chwaraewyr. Hefyd bydd y peldroediwr triciau Ash Randall – sydd â sawl record byd Guinness – yn dangos ei sgiliau anhygoel gyda'r bêl.

Bydd cwis a raffl elusennol hefyd yn cael eu cynnal ym mhob clwb, gyda'r arian yn mynd at yr elusen Street Football Wales, elusen sy'n anelu at wella bywydau a chyfleoedd pobl ddigartref a phobl sydd wedi eithrio'n gymdeithasol yng Nghymru. Bydd offer cyfieithu a lluniaeth ysgafn ar gael ar y noson.

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Cydymdeimlad

Daeth y newydd trist am farwolaeth Lawrence Cock, Gwarfelin, ar ôl cyfnod eithaf hir o salwch. Bu ef a'i briod Jean yn byw yng Ngwarfelin ers 1977 pryd y cafodd ef swydd reoli gyda'r Weinyddiaeth Amaeth yn Nhrawsgoed. 'Roedd yn arddwr brwd a bu'r ddau yn brysur iawn yn tyfu planhigion ac yn eu gwerthu gan roi yr arian i achosion lleol. 'Roedd y ddau yn aelodau gweithgar iawn yn Eglwys Capel Bangor a cofiwn amdano yn brysur iawn ar noson Crempog a'r Barbaciw blynyddol. 'Roedd hefyd yn cefnogi pob gweithgaredd yng Ngwmrheidol a gwelir ei eisiau yn fawr yn yr ardal. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Jean, ei briod, a hefyd Tim a Susan ei blant.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd â Gill Fathers, Hafod y Glyn, ar farwolaeth nith yn ifanc iawn yng Nghaerhifryn.

### Sioe Llambed

Llongyfarchiadau i Dafydd a Sian Morris ar ennill Prif Bencampwriaeth y Meirch yn Sioe Llambed yn ddiweddar. Dechrau da i'r tymor eleni eto!

### Gyrrwr newydd

Llongyfarchiadau i Ioan Lord Gellifach ar basio ei brawf gyrru. Pwyll biau hi!

## MADOG

### Suliau Madog

2.00

*Mai*

**22** Terry Edwards
**29** R W Jones

*Mehefin*

**5**
**12** Roger Ellis Humphreys
**19** Bugail
**26** John Gwilym Jones

### Cerddorol

Llongyfarchiadau mawr i Martha Rowlands, Talar Deg, ar ei llwyddiant ysgubol yn arholiad lefel ddechreuol ar y piano. Da iawn ti a dal ati.

# DÔL-Y-BONT

## Siop Siarad Dôl-Y-Bont

Mae Ar Lan Y Leri yn brosiect celf, rhan o Gynllun Astudiaeth Achos Cymerau www.cymerau.org sydd yn anelu i brofi ffyrdd newydd o gydweithio i ddatblygu gwerthfawrogiad gwell o ddŵr.

Roedd Siop Siarad Dôl-y-bont yn nosonn lle gwahoddwyd pedwar siaradwr gwadd i rannu eu harbenigedd gyda grwpiau bach o'r trigolion er mwyn ysgogi sgyrsiau am ddŵr, yn arbennig yr Afon Leri.

Y siaradwyr gwadd oedd Carol Fielding o Cyfoeth Naturiol Cymru; James Meek o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed; Kate Doubleday – artist Cymerau a Charmian Savill – darlithydd mewn Astudiaethau Theatr yn y Brifysgol. Mae'n diolch yn fawr iddynt i gyd am eu cyfraniadau, yn enwedig i Andy Rowlands o Biosffer Dyfi a gamodd i mewn y munud olaf gan i James Meek gael ei ddal nol.



Dechreuodd y noson gyda cherdd wedi ei darllen gan Gwilym Morus –Baird a'i chyfiethu gan Charmian Savill.

Cynigiodd Jess Allen, artist arall sydd yn gweithio ar brosiect Cymerau - Teithiau cerdded y Gwaith Trin Dŵr – lwncdestun i ddŵr mewn cwpanauplyg papur wedi eu stampio gyda data gan Dŵr Cymru ar ffyrdd o arbed dŵr.

Rydym yn hynod ddiolchgar i Llinos Evans, Glenys a Joy am eu croeso ac am ein cadw gyda lluniaeth drwy'r nos ; roedd hyn yn dderbyniol iawn o gofio mor oer a gwlyb oedd hi y noson honno.

Ar ôl pedair rownd o sgwrs fywiog, darllenodd David Billingsley o'r pentref gerdd gyfansoddodd yn darlunio tymhorau yr afon.

Daeth y noson i ben gydag ymateb barddonol yn cael ei ganu gan Gwilym Morus – Baird yn cynnwys darnau o'r sgwrs gyfoethog gafwyd drwy'r noson.

Mae'n diolch i bawb fynychodd, am eu haelioni a'u brwdfrydedd ac yn arbennig i'r Parchedig Wyn Morris, Y Gweinidog, am ddefnydd capel arbennig y Babell.

Bydd Gwilym a Jane yn gwneud eu pererindod ar hyd y Leri rhwng yr 8fed a'r 10fed o Fai. Cynhelir eu perfformiad olaf o'u profiadau i gyd yn Ynys-las ar Fai 26ain. Mae croeso cynnes i bawb i ddod i ymuno gyda ni yno.





# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor uchod ar nos Iau, 28 Ebrill o dan lywyddiaeth y Gynghorwraig Sian Jones. Wedi blynyddoedd o ymgyrchu, day w medru dweud fod Ystad Maesafallen wedi ei llwyr fabwysiadu gan Gyngor Sir Ceredigion. Mae ein diolch yn ddyledus i'r Cynghorydd Paul Hinge am ymgyrchu dros y trigolion yn y blynyddoedd diwethaf hyn, ac i Mr Penri James am y blynyddoedd cynt.

Deallir fod peth gwaith wedi ei wneud i arbed rhan o do Neuadd Rhydypennau sydd wedi dirywio yn ddiweddar. Fel y cyfeiriwyd eisoes mae'r ddau Dai Ffib yn eu lle ac yn weithredol, a phellach death gwybodaeth fod trigolion y Dolau yn awyddus i gael y cyfarpar hefyd. Maent am wneud casgliad lleol a disgwylir i'r Cyngor gyfrannu gweddill y gost os bydd angen. (Mae'r pris wedi codi bellach i £750).

Mae cae chwarae Tregerddan wedi cael y toriad cyntaf, ond nid oes unrhyw symudiad parthed problem y dŵr. Mae pyst goliau wedi eu gosod yng nghae chwarae Bryncastell, ac mae defnydd da yn cael ei wneud ohonynt yn barod!

Yn ei adroddiad dywedodd y Cynghorydd Paul Hinge fod ffordd y Dolau i'w chau am ddeuddydd tra bod gwaith yn cael ei gyflawni gan y Bwrdd Dŵr, ond nid oes dyddiad penodedig. Syrthiodd y ffens sydd wrth bont y rheilffordd ar ffordd Clarach, ac mae cwymp sylweddol yr ochr draw, mae'n cael sylw y dyddiau hyn. Mae problem y parcio yn Nhregerddan wedi gwaethygu gyda rhagor o gerbydau wedi glanio yno. Adroddwyd bod y tir rhwng Afon Ceiro a gwaelod Maes Ceiro wedi ei werthu i un o denantiaid yr ystad.

Mae dŵr yn codi i fyny ar ddarn o'r ffordd gerllaw ffermdy Bryncastell, hyn yn peri gofid i'r trigolion lleol, addawodd y Cynghorydd Hinge y byddai'n gofyn i rywun priodol i ddelio â'r broblem.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Gyfarfod Blynyddol ar nos Iau, 26 Mai am 7 o'r gloch yn Neuadd Rhydypennau, gyda'r cyfarfod arferol yn dilyn. Croeso i drethdalwyr fod yn bresennol.

# PENRHYN-COCH

## Suliau Horeb

*Mai*

**22** 10.30 Ysgol Sul ar y cyd yn S Ioan
12.00 Pererindod- Bro Ann Griffiths Manylion gan Ceris
**29** 2.30 Uno ym Methel, Aberystwyth – Y Parchg Wyn Morris

*Mehefin*

**5** 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun
**12** 10.30 Y Parchg Judith Morris Oedfa deuluol
**19** 10.30 Ysgol Sul
2.30 Tecwyn Jones
**26** 10.30 Gŵyl yr Ysgolion Sul ym Morlan
10.30 Yr Athro D. Densil Morgan – Horeb

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Shan Ac Alan James a'r teulu, Pen-banc, ar farwolaeth modryb Shân yn Nôl-y-bont.

â Norma a Glyn Collins, 35 Ger-y-llan, a'r teulu ar farwolaeth mam Norma.

ac â Llio a Derrick Adams a'r teulu, Glyn Helyg, ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith, Elfed Hughes – gŵr ei chwaer Ffion – yn y gogledd.

## Diolch

Hoffai Norma a Glyn Collins, 35 Ger-y-llan, a'r teulu ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau niferus, blodau a chefnogaeth dderbyniwyd ar farwolaeth mam Norma, Mrs Vera Mort, ar 16 Ebrill 2016.

## Y gwcw yn canu

Clywyd y gwcw (y gog) ar 6 Mai eleni yn galw o goed Llwyngronw ar fore heulog.

## Brysia wella

Dymunwn wellhad buan i Cerys Humphreys, Cysgod y Dderwen, a Richard Edwards, Cwrt, ar ôl triniaethau yn yr ysbyty.

Croeso i Lisa Humpreys, Y Gelli, unwaith eto adref o Awstralia am wyliau.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Katie Sorensen, a fu farw ar y 25 o Fawrth yn 95 oed. Roedd yn enedigol o Flaenplwyf, ond bu am gyfnod yn byw ym Mhantyffynnon, ger Salem. Treuliodd beth amser hefyd yn Waunfawr a Llanfarian, ond fe symudodd rhyw 15 mlynedd yn ôl yn agosach at ei merch i Lanfyrnach. Bu ei harwyl yng Nghapel Blaenplwyf ar y 7fed o Ebrill. Mae llawer o'i ffrindiau yn yr ardal a chofion melys amdani.



**Llongyfarchiadau i Ianto Bowen Jones, Penrhyn-coch ddaeth yn gyntaf yn yr Unawd Bl 1 a 2 yn Eisteddfod nos Wener**

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Glyn a Norma Collins, Ger-y-llan, ar golli mam Norma yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn â Dai ac Ann Jones, Tan-y-Berth, Mair a Bernard Edwards, Y Ddôl Fach a Marion Lewis, Denver, a'u teuluoedd ar golli chwaer i'r merched yn ddiweddar, sef Bet Lewis, Tregaron.

## Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Jack McGrath, 3 Tan-y-Berth, ar ôl bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.
Dymunwn wellhad buan i Mike Swift, 6 Tan-y-Berth, a fu yn cael triniaeth yn Abertawe yn ddiweddar.




**Bethan yn dal i fyny efo Stephen Jones mewn gêm bêl-droed ar gyfer Ysbyty Felindre**

## Merched y Wawr Penrhyn-coch

Treuliwyd noson hapus iawn ar nos Iau, 14eg o Ebrill. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan ein Llywydd Glenys Morgan. Trafodwyd y busnes arferol o fynd trwy yr ohebiaeth a ddaeth i law. Rhoddwyd gwybodaeth am ŵyl ranbarth a gŵyl Miri Mai yn Machynlleth. Darllenwyd llythyr oddi wrth Mavis McCauley i ddiolch am y croeso oedd hi a'i ffrindiau wedi cael yn ein mysg i ddathlu Gŵyl Ddewi. Croesawodd Glenys aelod newydd i'n plith, sef Felicity, hi wedi dysgu Cymraeg ac yn edrych ymlaen i fod gyda ni yn y dyfodol. Roedd Elizabeth Evans wedi troi i fewn atom i dreulio noson yn ein cwmni, ac fe gafodd hithau groeso arbennig fel arfer.

Fe groesawyd ein gwraig wadd am y noson, ef Gaenor Morgan a oedd wedi dod atom i ddangos sut i drin gwallt. Fe gafodd Sandra Beechey ei gwallt wedi ei dorri a'i drin ac yr oedd yn hapus iawn gyda'r canlyniad ar ddiwedd y noson. Fe wnaeth Gaenor hefyd drin gwallt ei nith a oedd wedi dod yn gwmni iddi. Diolchwyd gan Sue Hughes i bawb am wneud y noson yn un ddiddorol dros ben. Cafwyd cwpanaid a thynnu'r raffl misol i ddiweddi'r noson. Roedd y noson yng ngofal Mair Evans, Elizabeth Wyn, Delyth Ralphs ac Elsie Morgan.

## Gardd Gymunedol

Gyda'r gwanwyn wedi dod efo'i holl ysblander, mae yn hyfryd bod allan yn ei fwynhau. Carwn ddiolch i rhai o wragedd Eglwys Sant Ioan am y gwaith ardderchog maent yn eu wneud i gadw'r ardd yn yr hen ysgoldy, sef Neuadd yr Eglwys bellach. Mae y merched i'w gweld yn aml yn cymenu a chadw yr ardd i edrych mor hardd. Trowch i mewn i gael seibiant yn ei chanol ambell waith. Diolch yn fawr ferched.

## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Penrhyn-coch

Cynhelir noson o Rasus Moch i godi arian at Cymdeithas Rhieni a Athrawon Ysgol Gymunedol Penrhyncoch nos Wener 10fed o Fehefin yn Neuadd y Penrhyn i ddechrau am 7 or gloch. Croeso i bawb. Os oes gan rhywun ddiddordeb noddi ras neu fochyn cysylltwch â Rhodri Gibson ar 07887 564760 neu rhodri.gibson@gmail.com







Cylch Meithrin Trefeurig ar ymweliad â Fferm Ffantasi ac yn cystadlu yn Eisteddfod Penrhyn-coch





Bois y Fro (1af) a Chôr Penrhyn-coch (2il) yn cystadlu yng nghystadlaethau Sgen ti dalent? a Côr Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth

**Pero**

Does unman yn debyg i gartref.
Ac i Pero, teulu Pen-banc oedd ei nef.
Ar ôl treulio peth amser yn Lloegr bell,
Roedd ei gartref yng Nghymru tipyn yn well.
Felly fe redaist, yn ôl dy allu
At dy braidd yma yng Nghymru.
Ar ôl goroesi y milltiroedd maith.
Pwy ŵyr beth oedd dy hanes ar y daith.
Does dim amheuaeth dy fod yn gi bach da
A dy fod bellach yn cael aros yma.
Yr wyt werth y byd i deulu bach yma'n y Penrhyn
A chei di byth fynd oddi cartref ar ôl hyn.
Pero y ci defaid a fu ar daith go iawn
Ond bellach gartref gyda ei feistr yng Ngheredigion.
Rwy'n siŵr eich bod fel teulu yn falch o Pero
A'i gael yn ôl yn ddiogel, wedi eich plesio.
Daliwch eich gafael arno yn wir
Does neb am ei weld yn mynd yn ôl i Loegr.

**M.J.**



Annie May a Pero

# Pêl-Droed Penrhyn-coch

**Penrhyn-coch 1**
**Santes Fair y Gelli Gandryll (Hay St. Mary's) 0**

Dyma ganlyniad y gêm ar ddydd Sadwrn 30ain o Ebrill. Agos iawn feddyliech a da iawn am ennill, ond ac mae yn OND mawr , fe enillodd Penrhyn-coch y Gynghrair Spar Mid Wales mewn ffordd ddramatig iawn gyda gôl hwyr gan y Capten Owain James.

Golyga hyn i Penrhyn ddwyn y teitl oddi wrth Dref Trefyclo (Knighton Town) drwy 1 pwynt yn unig,

Roedd yn ddiweddglo hynod o gyffrous ar ddiwrnod diwethaf y Gynghrair gyda sawl tîm yn agos iawn iddi. Wrth i newyddion am y timoedd eraill ddod trwodd yn ystod y gêm roedd Gari yn gwybod fod yn rhaid i Penrhyn ennill ond ni wyddai y byddai lawr i'r munudau olaf. Daeth y gôl o groesiad i'r bocs ac Owain James yn cael pen iddo i'r gôl.

Dywed Gari Lewis y Rheolwr ei fod yn hapus iawn gan nad yw wedi ennill y Gynghrair fel chwaraewr nag fel Rheolwr ac mae yn browd iawn o'i fechgyn ac o 'i gapten Owain James am gael y gôl dyngedfennol gan ei fod yn arweinydd da i'w gyd-chwaraewyr.

Chwaraewyd gêm rownd cyn derfynol Cwpan Cynghrair Spar nos Wener 13eg o Fai gyda Penrhyn yn ennill ar Carno o 2 gôl i 0. Y sgorwyr oedd Aaron Lemon a Jono Evans. Bydd y ffeinal yn cael ei chwarae dydd Sadwrn 21 o Fai am 2.30 yn Llanidloes yn erbyn Santes Fair y Gelli Gandryll (Hay St Mary's). Tîm caled iawn fel y gwelir uchod. Pob lwc i'r bois.



Y Tîm a'u cefnogwyr



Owain James, y capten a'r cwpan

Nos Iau Mai 26

## Yng Nghanolfan Ymwelwyr Ynys-las

### Traethu - y glanio olaf

Perfformiad ar lafar ac ar gân Jane Lloyd Francis a Gwilym Morus-Baird yn ailfyw eu pererindod ar hyd y Leri o'i tharddiad i'r môr.

**6.30** ymunwch â ni am daith gerdded fer i weld lle mae'r Leri yn cyrraedd y môr (os bydd y tywydd yn caniàtau)

**7.30** Ymunwch â ni am ddathliad o'r Leri - y gorffennol, presennol a'r dyfodol. Byddwn yn adrodd am ein croesfannau, cyfarfodydd a'n cynulliadau ac yn codi gwydr i dduwiau'r afon.

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**HYSBYSEB AR GYFER SWYDD GOFALWR**

Mae Morlan yn chwilio am ofalwr i weithio ychydig oriau bob wythnos gan gynnwys gyda'r nos a phenwythnosau (nid oes oriau set).

Cyfrifoldebau: agor a chau, gosod ystafelloedd, ac ati.

Mae Morlan yn talu'r cyflog byw.

**Manylion pellach: 01970-617996 neu morlan.aber@gmail.com**

*Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH*
*01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan*

## LLANDRE

**Merched y Wawr**

Trefnwyd Merched y Wawr Llandre nos Lun Ebrill 11 gan Mary Thomas. Cawsom sgwrs a sleids diddorol iawn gan Ruth Jên o Dal-y-bont a ddangosodd gwahanol batrymau yr oedd yn gallu eu gwneud gyda gwlân.

**Eisteddfodol**

Da iawn i Enid a Mirain am gystadlu yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch. Llongyfarchiadau i Mirain am ddod yn ail yn yr unawd Blwyddyn Derbyn/ Meithrin.

**Clwb 50 Banc Bro Llandre**

**Enillwyr Mai**

1 Linda Jones
2 Marian Beech Hughes
3 Owen Watkin

# BOW STREET

**Suliau**
Capel y Garn
10.00 a 5.00
Gweler hefyd www.capelygarn.org/

*Mai*
**22** Terry Edwards
**29** R W Jones

*Mehefin*
**5** Noddfa Huw Roderick
**12** Aelodau Roger Ellis Humphreys
**19** Bugail Cymun
**26** John Gwilym Jones

**Priodas Ruddem**
Dymuna Dai ac Auriel Evans ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau am y dymuniadau gorau, cardiau, galwadau ffôn, blodau ac anrhegion a dderbynion ar achlysur eu Priodas Ruddem yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Nos Lun yr 11eg o Ebrill croesawyd pawb yn gynnes gan ein llywydd Shân Hayward. Ar ôl trafodaeth a rhannu



gohebiaeth rhanbarthol daeth yn amser i gyflwyno ein gŵr gwadd am y noson sef Arwel 'Rocet' Jones. Yn amserol iawn ei bwnc dewisol oedd trafod y gyfrol deyrnged i Merêd a oedd ar fin dod o'r wasg. Cawsom ganddo lawer o wybodaeth am gefndir, gyrfa ac am gyfraniad helaeth Merêd mewn sawl maes. Edrychwn ymlaen i weld y gyfrol er mwyn ein hatgoffa o'r gŵr hynaws a oedd wedi ymgartrefu yng Nghwmystwyth ers nifer o flynyddoedd. Diolchwyd i Rocet am gyflwyniad difyr iawn gan Shân a bu cyfle i sgwrsio ymhellach dros baned yng nghofal Meinir a Marian, ac enillwyd y raffl gan Delcy.



# Y Beicwyr Blewog

Mae Sioe Aberystwyth eleni yn croesawu David Myers a Simon King (sy'n fwy adnabyddus fel yr 'Hairy Bikers') i'r sioe. Bydd y ddau gogydd enwog o ogledd Lloegr yn cerdded o gwmpas y maes yn ffilmio eitemau ar gyfer eu cyfres deledu newydd. Ac os nad yw hynny'n ddigon i dynnu dŵr o'ch dannedd, byddan nhw hefyd yn dangos eu sgiliau coginio trwy greu rhai prydau Cymreig traddodiadol. Yn eu rhaglen byddant yn canolbwyntio ar ochr dofednod a wyau ac mae'n debyg y byddant yn ffilmio teulu lleol, sef Tom Hughes, Pantyperan, Llandre a'i ŵyr Tomos Hughes Jones i'w ddarlledu yn y gyfres newydd. Dewch i ymuno â ni ar Fehefin 11 yng Ngelli Angharad

## Ysgol Rhydypennau

### Tysteb

Ddiwedd tymor yr haf bydd **Mr Adrian Havard**, pennaeth yr ysgol ers 2002 ac aelod o'r staff ers 32 o flynyddoedd, yn ymddeol.

Os hoffech gyfrannu at ei dysteb, danfonwch eich rhodd at 'CRhA Rhydypennau PTA' i'r cyfeiriad isod, gan nodi eich enw a'ch cyfeiriad. Derbynnir cyfraniadau hyd **20 Mehefin**.

*CRhA Rhydypennau PTA, Elgar Farm, Llandre, Bow Street, SY24 5AJ*

Cyflwynir y dysteb yng Ngarddwest yr ysgol am 5pm nos Wener, 24 Mehefin.
Byddai'n braf gweld cynifer â phosibl o gyn-ddisgyblion a ffrindiau'r ysgol
yn dod ynghyd ar y noson i ddangos eu cefnogaeth a'u diolch.

Preswylwyr Cartref Tregerddan yn mwynhau eu te Pasg blynyddol.

# Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Enillydd Tlws yr Ifanc dan 21 am stori fer "Tro Trwstan" oedd Gwen Down, Aberystwyth. Ganwyd Gwen yng Nghaerdydd ond mae ei gwreiddiau yng Ngheredigion ac fe symudodd i Aberystwyth pan yn ddwy oed. Aeth i'r Ysgol Gymraeg yn Aberystwyth ac mae ar hyn o bryd ym mlwyddyn 7 yn Ysgol Gyfun Penweddig. Dyma benillion cyfarch iddi gan ddisgyblion Ysgol Penrhyn-coch.

Gwen Down ddaeth i frig 'Tlws yr ifanc' eleni
Gyda'r dalent 'sa hon mae'n rhaid ei chlodfori,
Os nad yw'n cystadlu mewn steddfod fel yma
Mae'n hoff iawn o ddawnsio, perfformio a siopa!

Ganddi ddawn 'nôl y sôn o ganu y delyn
A rhaid cael 'Jack Wills' ar bron bob dilledyn,
Ond 'Sion Blewyn Coch' fu'n llwyddiannus 'ma heddi
Mae'n bleser dy ganmol- yn wir ti'n ei haeddu.

Derbyniwyd 21 o gerddi yng nghystadleuaeth y Gadair ac yn ol y beirniad, Esyllt Tudur Adair, Llanrwst " mae'r Pwyllgor i'w canmol yn fawr iawn am ddenu cymaint o gystadleuwyr". Gosodwyd y cerddi ganddi mewn dau ddosbarth gan roi y saith cerdd oedd yn apelio mwy iddi hi ar y blaen). Dyfarnodd 96 yn gyntaf, "Cerdd am daith olaf naw deg chwech o gefnogwyr tîm pêl-droed Lerpwl, a laddwyd yn stadiwm Hillsbrough. Hon oedd eu taith olaf ond i'w perthnasau mae'r daith tuag at gyfiawnder yn parhau. Mae hon ... yn gerdd arbennig iawn ac yn hawlio sylw y darllenydd. Hoffodd yr Englyn Milwr yma, "Esgyrn yn cael eu gwasgu...."

Ac roedd yr englyn "Heddiw 'rôl hir flynyddoedd..." yn dangos llwyddiant yn y llysoedd heddiw. Cerdd arbennig ac amserol. Yr enillydd oedd (Dafydd) Emyr Jones, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd sydd yn enedigol o Sir Aberteifi - mab ieuengaf y Prifardd Dafydd Jones, Ffair-rhos. Ail gydiodd mewn barddoni yn y deng mlynedd diwethaf gan ennill tair cadair eisoes- Eisteddfod Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid a chadair Eisteddfod Maenclochog ddwywaith. Daw nôl i Geredigion yn aml – mae'n aelod o Dîm Talwrn y Beirdd, Ffair-rhos.



Emyr Jones



Gwen Down

Yn anrheg o ŵyl Penrhyn – ei chadair
i'w chydio'n ddiderfyn
ag awch; mae'r daith ar gychwyn
i fardd hoff 'rhen froydd hyn.
**Anwen Pierce**

**Cystadleuaeth y Gadair (Beirniad: Esyllt Tudur Adair)**

**Taith**

(Ar Ebrill 15fed 1989, lladdwyd 96 o gefnogwyr Lerpwl yn stadiwm bêl-droed Hillsborough mewn gêm gwpan yn erbyn Nottingham Forrest. Cawsant eu gwasgu i farwolaeth gan fod gormod o bobl yn y stadiwm. Hon oedd eu taith olaf, ond i'w perthnasau mae'r daith tuag at gyfiawnder yn parhau).

Ym mhob tref mae'n hen ddefod – addoli
Wrth ddilyn eilundod,
Cymanfa o dyrfa'n dod
I foddi mewn rhyfeddod.

Hwyl oesoedd hir o bleser
Yn eu sedd gerbron y sêr
Sy'n annog pob cefnogwr
I'r ffwrn bob Sadwrn yn siŵr.

Un Ebrill, mawr eu clebran –
Addo'r hwyl a ddaw i'w rhan
O gipio y gêm gwpan.

A gwefr cael gweld pob ffefryn – a hudodd
Y tadau a'u bechgyn
Yno ar bnawn o wanwyn.

Mewn gobaith hwy yn teithio
Yn frwd, o gartrefi'r fro
Yn ddedwydd, yn ddi-hidio.

Aeth nifer â'u hwteri
I bair o faes yn berwi –
Na luniwyd i'w orlenwi.

Anfon y dyrfa enfawr
I'r ffau, o'u bysiau bob awr
Cyn y gêm a'i thocyn gwae
Yn chwerwi y maes chwarae.

Ysgarmes mewn lle o bleser a drodd
Yn dranc mewn byr amser –
Adfyd rhy hwyr i'w adfer.



Esgyrn yn cael eu gwasgu,
Ac angau yn donnau du
Yno'n eu hamgylchynu.

O beidiad eu bywydau,
Gyda'r nos ei gadarnhau
Yn rhesi ar derasau.

O edrych ar anfadrwydd
Oedd o rym y gyrroedd rhwydd,
Ebrill a ddaeth a'i sobrwydd.

* * * *

Heddiw rôl hir flynyddoedd – yn weddus
Daeth llwyddiant o'r llysoedd,
Pob teulu'n blasu eu bloedd
O archoll yr ymgyrchoedd.

O reidrwydd hwy yn brwydro
A hwythau yn cyd-deithio
Yn llu, rhag bradu eu bro.

Rhyddid o'r anwireddau
Yno'n siŵr sydd yn nesáu –
I lonni eu calonnau.

O adwyth, cawsant hyder
Yn hawdd i ddelio â'u her –
O undod daw cyfiawnder.
**Emyr Jones, Caerdydd**

**Soned – Hen Gapel**
Cyfeirient yma o bob cwr o'r plwy',
Yn braidd sychedig i gael moddion gras;
Gwrando pregethwyr a'u huodledd hwy,
Ac uno yn y moli gyda blas.
Gwelsant y lle yn orlawn pan oedd haint
A than diwygiad chwilboeth drwy y wlad,
Addef pechodau lu, a'i chyfri'n fraint,
Yn edifeiriol ger bron Duw, eu Tad.
Ond pylodd y gogoniant gynt a fu
Wrth i gymuned gyfan fynd ar chwâl,
Rhaid oedd cau drysau'r capel ar awr ddu,
A gwylio'r muriau'n dryllio'n feini mâl.
Preiddiau gwahanol welir yma nawr
Yn troedio'r adfail a difwyno'r llawr.
**John Meurig Edwards, Aberhonddu -** Cydradd 1af

**Soned – Hen Gapel**
Pa le mae'r praidd a droediodd lwybrau gynt
Yn ffyddlon draw i Seion ar y Sul?
Y rhai a brofodd nerth y nefol wynt,
Y llu a lwybrodd ar y llwybr cul.
At fwrdd y cymun ddaethant bob yn un
I dderbyn bara'r bywyd, yna'r gwin.
A ffyddlon oeddent oll ar bob nos Lun
Yn y cyfarfod gweddi'n plygu glin.
Gorffwyso maent mewn hedd ym mhridd y gro,
Cans diwedd ddaeth ar ei daearol daith,
Y rhai a droediodd ar hyd lwybrau'r fro
Draw i hen gapel Seion ar ôl gwaith.
Maent gyda'r dorf yng nghwmni'r addfwyn Oen,
Ymhell o sŵn y byd a'i ddirfawr boen.
**Megan Richards, Aberaeron -** Cydradd 1af

**Telyneg – Gobaith**
Yng nghledr fy llaw
rwyt ti'n frau ac yn fregus,
yn fân ac yn fain,
yn damaid di-ddim.

Yng nghledr y pridd
rwyt ti'n wyrth ac yn werthfawr,
yn dwf ac yn dorf,
yn obaith di-drai.
**Y Parchg Judith Morris**

**Englyn Ysgafn – Pwll Nofio**
Es i mewn yn ewn i nofio – ond diawch
O fewn dim ro'n i'n stryglo;
O, annoeth oedd mynd yno,
A haid yn fy ngwawdio, "Ho-Ho".
**John Meurig Edwards, Aberhonddu**

# Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2016



Miss Catryn Lawrence yn darllen beirniadaeth Tlws yr Ifanc



Beca Williams o Rhydyfelin, Aberystwyth yn ennill y wobr gyntaf mewn tair cystadleuaeth, Unawd Ysgol Uwchradd, Unawd Cerdd Dant-dant 18 oed, a'r Unawd Alaw Werin dan 18 oed (Digyfeiliant).











Ela Mablen, Cwrtnewydd ddaeth yn drydydd ar yr unawd offeryn cerdd dan 18 oed



Betsan Downes, Penrhyn-coch; ail ar yr unawd offeryn cerdd dan 18 oed



Carys Jenkins, Llywydd nos Wener



Gregory Vearey-Roberts yn cyflwyno Cwpan Parhaus er cof am Mary Thomas (Bronsaint) i Efan Williams, Lledrod, enillydd yr her unawd.

# Y BORTH

**Arwyddion yr amserau**

Pan ddinistriwyd arwydd gorsaf y Borth mewn storm fe ymatebodd Grŵp Adfer yr Orsaf yn gyflym trwy gasglu ynghyd grŵp o wirfoddolwyr i gynllunio a chreu arwydd arall.

Bydd degau o filoedd o deithwyr ar y lein o'r Amwythig i Aberystwyth ar hyd y blynyddoedd wedi sylwi ar yr arwydd hardd yn null y GWR yng ngorsaf y Borth. Yn anffodus dinistriwyd yr arwydd fu'n sefyll am naw mlynedd gan y storm a enwyd gan y Swyddfa Dywydd yn Jake gan ei adael yn ddarnau. Yn ffodus daeth yr artist lleol Ag Cain i'r adwy ac adeiladodd arwydd newydd mewn deunydd sydd yn addas i bob tywydd. Mae Ag yn enwog am ei gelf poster hynafol sydd i'w weld mewn llawer o orielau lleol – gan gynnwys Amgueddfa Gorsaf y Borth. Mae yn gefnogwr brwd o'r Cynllun Treftadaeth sydd yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr ac roedd yn barod iawn i gynnig ei wasanaeth.




Yr arlunydd lleol Ag Gain yn sefyll wrth yr arwydd newydd ar orsaf y Borth.

## Gofalwyr maeth yn ymddeol ar ôl 40 blynedd o wasanaeth

Mae pâr o'r Borth wedi ymddeol yn ddiweddar ar bod yn ofalwyr maeth i Cyngor Sir Ceredigion am 20 mlynedd.

Symudodd Pat a Tony New i'r Borth o Wolverhampton yn 1994, lle buont hefyd yn ofalwyr maeth am dros 20 mlynedd, ac roedd Tony hefyd yn eistedd ar y Panel Gofalwyr lleol.

Yn 1995 ceisiodd Pat a Tony i fod yn ofalwyr maeth gyda Chyngor Sir Ceredigion, ac aethant trwy'r broses asesiad a chymeradwyo. Daethant yn ofalwyr maeth cymwys yn 1996 gan ddechrau edrych ar ôl plant Ceredigion fel gofalwyr maeth, oedd am nifer o resymau methu cael eu gofalu gartref.



Dywedodd Julie Murphy, Rheolwr Gweithredol Tîm y Gwasanaeth Lleoli Teuluoedd: "Yn ystod ei 20 mlynedd o ofalu maeth, mae dros 50 o blant wedi cael eu lleoli gyda Pat a Tony, o blant newydd anedig i bobl ifanc 17 mlwydd oed, gan gynnwys lleoli mam a phlentyn. Maent wedi cynnig gwasanaeth o'r radd flaenaf dros y blynyddoedd ac yn angerddol am eu gwaith. Rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu help a'u cefnogaeth ac yn dymuno'r gorau iddynt yn eu ymddeoliad."

Dywedodd Pat New: "Mae wedi bod yn 20 mlynedd diddorol iawn a byddwn yn gweld eisiau'r ansicrwydd o byth wybod pwy sy'n mynd i fod wrth ein drws ni a phryd. Rydym wedi mwynhau'r sialensiau o ddelio gyda materion cymhleth. Bydd gwacter yn ein bywydau wrth beidio a bod yn ofalwyr maeth."

I ddathlu eu ymddeoliad, trefnwyd cyflwyniad ar gyfer y pâr mewn cyfarfod Tîm y Gofalwyr Canolog a gafodd ei gynnal yn Aberaeron ar ddydd Llun, 11 Ebrill gan Pam Green a oedd yn Reolwr y Gwasanaeth Lleoli Teuluoedd gyda Cyngor Sir Ceredigion tan ei hymddeoliad yn 2015.

# Adolygiadau

Bethan Gwanas *I Botany Bay*
Y Lolfa, 239 t., £8.99

Ar ddiwedd mis Awst 1833 hwyliodd y llong *Amphitrite* am Awstralia â 108 o garcharorion benywaidd, gan gynnwys Ann Lewis, merch ddeunaw oed o ardal Dolgellau. Dedfrydwyd Ann i'w halltudio am saith mlynedd o ganlyniad i ddwyn oddi ar ei chyflogwr, John Price perchennog siop ddillad. Roedd y fath ddedfryd pryd hynny'n gyfartal ag alltudio am oes gan mai ychydig iawn o ferched allai dalu am fordaith adref.


Ni wyddys gwir hanes Ann Lewis ond yn ei nofel newydd i oedolion, *I Botany Bay*, mae Bethan Gwanas wedi gafael yn yr ysgerbwd noeth a chreu stori gredadwy i esbonio sut allai merch ifanc fod wedi dwyn y fath warth ar ei phen.

Mae Ann Lewis y nofel yn ferch ddel, ddiniwed. Ymddengys fod dysgu sgiliau darllen, ysgrifennu a syms yn yr Ysgol Sul wedi talu'n dda a hithau newydd adael tyddyn ei theulu i weithio i berchennog siop ddillad, sydd yn credu bod merched cefngwlad yn fwy gweithgar a gonest na marched y dref.

Mae tad Ann yn flaenor sydd yn ystyried pleser i fod yn bechod ac sydd yn pwysleisio pwysigrwydd cadw enw da y teulu. Mae'i ferch yn ymdrechu i fod yn Fethodist da ond mae hi wedi syrthio dros ei phen a'i chlustiau mewn cariad â dyn mwy profiadol ac wedi mwynhau ei chusan gyntaf.

Yr un pryd mae Ann yn dechrau dod yn ymwybodol o anghyfiawnder yn y gymdeithas o'i chwmpas. Mae'n sylwi ar anffawd pobl dda tra bod troseddwyr yn ffynnu, yn hytrach na chael eu taro'n gelain gan Dduw, fel sydd yn digwydd yn y Beibl,. Yn ei gwaith, mae'n gweld dynion llai galluog na'r merched mewn swyddi o statws uwch.

Nid yw popeth yn hollol foddhaol yn ei bywyd carwriaethol chwaith. Mae hi'n amau fod llygad ei chariad ar gyfle gwell gyda merch ffermwr cyffyrddus a all brynu addurniadau nad oes gobaith i Ann byth eu




fforddio.

Nid yw merched y dref mor ddiniwed ag Ann. Mai rhai ymhlith ei ffrindiau newydd yn anfodlon derbyn mai i'r pant y rhed y dŵr, tra bo'r gweithwyr yn crafu byw, ac felly y bydd hi am byth. Nid oedd gwerin bobl yr ardal yn debyg o ddilyn esiampl eithafol terfysgwyr Merthyr ond awgrymwyd i Ann bod rhaid i bobl dlawd edrych ar ôl eu hunain.

Mae Bethan Gwanas wedi ysgrifennu stori afaelgar a chredadwy, arwres annwyl â chast eang o gymeriadau lliwgar Mae'n amlwg iddi ymchwilio'r cyfnod yn fanwl ond mae hi'n cynhyrchu'i gwybodaeth yn fedrus, wrth i'w chymeriadau sgwrsio'n naturiol, fel nad yw'r darllenydd yn teimlo ei fod yn derbyn gwers hanes.

Hyd yn oed heddiw mae anghydfod ynglŷn â'r gyfundrefn gyfiawnder troseddol, yn enwedig cosbau addas i ferched sy'n troseddu. Gallai cymhariaeth â chyfnod Ann Lewis fod yn sbardun trafodaeth i grwpiau darllen. Dylai dysgwyr sydd yn barod i fynd i'r afael â nofel i Gymry Cymraeg ystyried darllen y nofel hon, gan nad yw'r awdur wedi mynd dros ben llestri wrth gyfleu tafodiaith y gogledd.

Ni ddylai darpar ddarllenwyr dichonol gael eu rhwystro os nad oedd ambell un o straeon cynt yr awdures at eu dant gan eu bod yn rhy agos at yr asgwrn. Mae *I Botany Bay* yn nofel hollol wahanol ei naws. Mae'n amlwg bod dawn gan Bethan am ddod a hanes yn fyw a gobeithio bod mwy i ddod o'r un wythïen.

**Jackie Willmington**
Adolygiad buddugol
Eisteddfod Penrhyn-coch

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 19 Ebrill 2016, yn Neuadd y Penrhyn, gyda'r Cadeirydd, y Cynghorydd Dai Mason, yn y gadair. Roedd Mel Evans a Trevor Davies wedi anfon ymddiheuriadau.

Materion yn codi: Tir gyferbyn â Horeb - roedd Dai Mason wedi gwneud ymholiadau am y cynllun, ac roedd y Cyngor Sir yn parhau i ystyried darparu lle parcio yno; yn anffodus, gan fod arian mor brin, nid oedd y rhagolygon yn addawol. Fodd bynnag, byddai'r Cynghorydd Sir yn parhau i ddilyn y mater, yn enwedig gan fod y Cyngor Cymuned wedi cynnig cyfrannu at gost y cynllun. Maes Seilo - cytunwyd y byddai aelodau'r Cyngor yn ymweld â'r safle ar ôl y cyfarfod. Golau yn agos i Ger-y-llan - roedd y Cyngor Sir wedi cynnig cyfarfod ar y safle, a chytunodd Dai Mason i drefnu dyddiad. Cerbydau ger Ardwyn, Pen-bont - y Cyngor Sir yn edrych i mewn i'r mater. Baw cŵn ym Mhenrhyn-coch - roedd hon yn dal i fod yn broblem. Roedd y Cyngor Sir yn fodlon darparu arwyddion ychwanegol, ond dim biniau ychwanegol. Cytunwyd i edrych i mewn i'r posibilrwydd o ddarparu taflen i'w dosbarthu o gwmpas y pentref yn tynnu sylw at y broblem. Tyllau yn y ffyrdd - roedd rhai tyllau wedi cael eu llenwi'n ddiweddar, ond roedd angen cadw golwg ar y sefyllfa'n gyson. Roedd y twll mawr yn y pafin ger stad Glan-ffrwd yn beryglus a phenderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir unwaith eto.

Materion eraill: roedd Eirian Reynolds wedi derbyn cwyn am y meinciau a osodwyd yn ddiweddar yng nghae chwarae'r Penrhyn. Addawodd Eirian gysylltu â Mid Wales Landscaping er mwyn cywiro unrhyw ddiffygion yn y gwaith. Tan-rallt, Pen-bont Rhydybeddau - roedd Dai Mason wedi derbyn cwynion fod perchennog newydd Tan-rallt wedi codi ffens o gwmpas darn o dir comin ger Tan-rallt. Penderfynwyd y dylai'r Clerc gysylltu â'r Gofrestrfa Dir yn syth i gael sicrwydd am berchnogaeth y tir, ac yna gweithredu yn unol â'r wybodaeth honno.

Peter Lord *Tradition: a New History of Welsh Art* Parthian 400t. £35

"Gwlad beirdd a chantorion" – dyna'r amgyffrediad traddodiadol o Gymru, ond rhoswch funud, mae cyhoeddiad diweddaraf yr hanesydd celf Peter Lord *Tradition: a New History of Welsh Art 1400 – 1990* yn dadwneud yr amgyffrediad poblogaidd yn llwyr. Oes, mae gennym ni y Cymry draddodiad gweledol y gallwn fod yn falch ohono. Ceir awgrym clir o hyn ar y dechrau yn nheitl y llyfr- *Tradition*. Mae pethau wedi symud yn eu blaenau ers pan yr honnwyd gan yr hanesydd celf David Bell, yn ôl yn 1951, na fu erioed yng Nghymru unrhyw draddodiad yn y celfyddydau cain.

Mae'r gyfrol *Tradition* yn agor ein llygaid a'n harwain i sylweddoli gwerth ac arwyddocad ein traddodiad gweledol ni ein hunain. Yn wir, fe wnaeth Peter Lord hyn eisioes drwy ei dair cyfrol swmpus- *Delweddau Gweledol Cymru*, *Gweledigaeth yr Oesoedd Canol*, a *Y Gymru Ddiwydiannol*. Yn y gyfrol hon, fel yn y rhai blaenorol, mae'n cydblethu hanes gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol ein gwlad â'r weithred o greu delweddau gweledol a'r ffordd y maent yn cyfoethogi ein dealltwriaeth o'n hanes.


Mae cynnwys y gyfrol yn ymestyn o 1400 – 1990. Y ddelwedd gyntaf yw Sêl Owain Glyndŵr 1404-5. Pedwar cant o ddelweddau lliw yn ddiweddarach, ar ddiwedd y gyfrol, ceir peintiad gan Shani Rhys James. Nid yw gofod yn caniatàu i wneud cyfiawnder â holl gynnwys y gyfrol, ond yr hyn a'm trawodd oedd nifer y gyfeiriadaeth at ardal *y Tincer* a'r cyffiniau sydd yn ei britho ar draws y cyfnodau ac a fyddai o ddiddordeb uniongyrchol i ddarllenwyr *y Tincer*. Dyma rai ohonynt.

Mae brawddeg gyntaf y gyfrol yn cyfeirio at Frenin Henri 1V yn ysbeilio Abaty Ystrad Fflur yn ei ddialedd am y ffaith i Owain orchfygu ei fyddin yn mrwydr Hyddgen.

Ym mhennod 1600 – 1820 gwelir ysgythriad gan artist anhysbys o fwyngloddio plwm yng Nghwmsymlog. Ei fwriad gwreiddiol oedd arddangos manteision economaidd mwyngloddio plwm ond yn ddiarwybod iddo ef ei hun fe gynhyrchodd un o'r golygfeydd cyntaf a ddaeth ymhen amser i ddathlu y cysyniad o "Gymru Wyllt" *("Wild Wales")*

Yn ddiweddarach yn y stori cyfeirir at Thomas Johnes yr Hafod fel noddwr celfyddydau. Bu'n gefnogol iawn i'r artist Thomas Jones,cyn-ddisgybl i Richard Wilson a'r tebygrwydd yw mai peintiadau Thomas Jones o gwmpas stâd yr Hafod oedd sail y delweddau a beintiwyd ar lestri cain a gynhyrchwyd i Johnes gan ffatri yn Narby y flwyddyn ganlynol. Comisynodd Johnes hefyd Thomas Baldwin o Gaerfaddon i gynllunio ei dŷ newydd a bu hefyd yn cyd-weithio â John Nash y tirluniwr a'r pensaer enwog. Cyfraniad mwyaf nodedig Nash oedd y llyfrgell wyth ochr a gartrefai gasgliad anferth Johnes o gyhoeddiadau gwerthfawr a phrin.

I lawr y ffordd, fel petai, yn Senedd-dy Owain Glyndwr mae murlun gan artist Albanaidd – Murray Urquhart. Dyma'r ymgais gyntaf i ddelweddu Owain Glyndŵr mewn man cyhoeddus. Cafodd Urquhart ei gynghori ar yr eiconau i'w cynnwys yn y pedwar panel gan O.M Edwards.




Yn 1935 cynhaliwyd arddangosfa *"Contemporary Welsh Art"* yn Oriel Gregynog, Llyfrgell Genedlaethol Aberystwyth gyda Augustus John yn ddetholwr. Fel yr awgryma Peter Lord cafodd yr arddangosfa ymateb cymysg ac mae'n dyfynnu'r artist Evan Walters – "Yr hyn a welwn yn Aberystwyth yw celf Seisnig gan artistiaid Cymreig. Byddai celf Gymreig yn mynegi delfrydau ac enaid Cymru – yn union fel mae 'Bydd Myrdd o Ryfeddodau','Calon Lân', ac 'Yn y Dyfroedd' yn ei wneud". (*cyfeithiad*)

Mae cysylltiadau â'r ardal hon yn parhau i'r cyfnod modern gyda chyfeiriadaeth at artistiaid megis Mary Lloyd Jones fel un a heriodd yr agwedd ragfarnllyd tuag at gelf fenywaidd mor hwyr â 1974 drwy fod yr aelod benywaidd cyntaf o Grŵp 56.(Grŵp dylanwadol o artistiaid a sefydlwyd yn y pumdegau). Gyda llaw, gellir gweld arddangosfa yn olrhain hanes y grŵp yn y Llyfrgell Genedlaethol ar hyn o bryd.

Cyfeirir hefyd at gyfraniad gwerthfawr Marian Delyth y ffotograffydd a fu ac sydd yn ddogfenwraig protestio politicaidd yng Nhymru. Yn y gyfrol ceir ffotograff du a gwyn trawiadol iawn o ferched Greenham Common.

Rhaid peidio anghofio Peter Lord ei hun wrth gwrs. Er ei fod yn ddiweddar wedi bod yn canolbwyntio ar ei ysgrifennu a'i ymchwil mae ganddo nifer o ddarnau o gelf gyhoeddus i'w enw. Un o'r rhai mwyaf nodedig yw Cofeb Hywel Dda yn Hendy-gwyn -ar-Daf.

Mewn gwirionedd, gallai unrhyw adolygydd i unrhyw bapur bro yng Nghymru ganfod cyfeiriadaeth leol, dyna faint ymchwil campwaith Peter Lord.

**Gareth Owen**

## CLARACH




**Llongyfarchiadau i Griff Lewis, Clarach enillodd bencampwriaeth XCMTB Cymru 2016. Gwelir Griff yn y canol gyda Huw Buck Jones (Clwb Dyffryn Conwy) ar y chwith (2il) a Jack Hastings o (Clwb Jif Caerdydd) ar y dde (3ydd).**

## Colofn Enwau Lleol

Mae'r enw *Banc Coed-laith* neu *Banc Coed-iaith* ar amrywiol fapiau'r Arolwg Ordnans am lecyn ar y gefnen rhwng pentrefi Cwmerfyn a Goginan wedi peri penbleth i mi ers blynyddoedd. Mae'n amlwg bod elfen olaf yr enw wedi peri dryswch i'r Arolwg Ordnans yn ogystal, ond does yr un o'u cynigion yn taro deuddeg. Ni ddisgwylid i *llaith* dreiglo ar ôl yr enw lluosog *coed*, a fyddai'r gair *iaith* yn gwneud dim synnwyr yn y cyd-destun.


Wrth chwilota mewn mapiau cryn dipyn yn hŷn o'r ardal, daeth gwir arwyddocâd yr enw i'r amlwg. Fe'i cofnodir ar fap Lewis Morris 'A Plan of the Mannor of Perveth' yn 1744 fel *Goedlaeth*. Ond Singer ar ei fap llawysgrif o Geredigion yn 1803 sy'n ein gosod ar y trywydd cywir gyda *Pen y Goedlath*. Cadarnheir dilysrwydd y ffurf honno gan ynganiad Hywel Lewis, Cwmerfyn, o'r enw, sef *Pen Goedlath*.

Ffurf dreigledig ar *coedlath* sydd yma, cyfuniad o *coed* a *llath*, yn golygu 'polyn, gwialen, rheilen, neu brysgwydd'. Tebyg mai 'prysgwydd' fyddai'r ystyr mwyaf addas yma.

Dyma enghraifft berffaith o'r gofal sy'n angenrheidiol wrth ymdrin ag enwau a gofnodir ar fapiau'r Arolwg Ordnans, yn enwedig pan nad yw eu ffurfiau yn cytuno â ffynonellau eraill. Byddwn yn tueddu i dderbyn unrhyw dystiolaeth argraffedig fel efengyl, ond pwyll pia hi!

Angharad Fychan

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org





capsiwn y map: © Crown Copyright and Landmark Information Group Limited (2016). All rights reserved. (1900s).

Dilynwch y Tincer ar Trydar **@TincerY**

# Taith gerdded y mis

## ARDAL YSTUMTUEN

Man dechrau: Ochr y ffordd ger Llyn yr Oerfa.
Map: OS Explorer 213.
Pellter: 4.5 milltir hawdd ar ffyrdd gwledig tawel.




Taith ardderchog pan yw'r tir yn wlyb. Cerddwch yn ôl o'r llyn a throi i'r chwith bob tro. Cyfle i ymweld â phentref Ystumtuen – tua 400 llath lawr ac yn ôl.

Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?
Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys; cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:
Dysgu Bro Ceredigion Community Learning
01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION
Pennau
Ar agor Mawrth – Sul
Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

# Ysgol Craig yr Wylfa

### Addysg Hedd

Mae plant Cyfnod Allweddol 2 wedi bod yn ffodus iawn i gael cymryd rhan mewn project Addysg Heddwch mewn ysgolion – Mae'r project yn rhedeg am 6 wythnos a'r amcan yw creu awyrgylch heddychol mewn ysgolion ble mae'r disgyblion yn trin ei gilydd gyda pharch, yn cyd-weithio ac yn datrys problemau yn adeiladol. Maer plant a staff wedi elwa llawer allan o'r sesiynau yma.

### RAY Ceredigion

Rydym yn ffodus iawn i allu cynnig sesiynau chwarae am ddim ar ôl ysgol i bob plentyn ar brynhawn dydd Llun o 3:30 tan 5:30. Daw staff anhygoel RAY Ceredigion i'r ysgol ar ôl 3 o'r gloch pob dydd Llun a sefydlu amrywiaeth o weithgareddau i'r plant gymryd rhan ynddynt. Maent hefyd yn cael eu darparu gyda byrbryd iach i gadw eu hegni i fyny.

### Mari Arad Goch


Croesawodd yr ysgol Mari o Arad Goch yn ôl unwaith eto i weithio gyda'r dosbarth Cyfnod Allweddol 2. Cymerodd y plant ran mewn gweithgareddau drama hwyliog a datblygu eu defnydd o'r iaith Gymraeg ymhellach. Diolch yn fawr Mari am eich holl waith caled ac rydym yn edrych ymlaen i'ch gweld chi eto nes ymlaen yn y tymor.

### Hyfforddiant Beicio

Mae blynyddoedd 5 a 6 wedi cael hyfforddiant diogelwch beiciau a ddarperir gan y Cyngor Sir. Braf yw gweld cynifer o'r plant yn cyrraedd i'r ysgol ar eu beiciau gyda'r holl offer amddiffynnol cywir. Diolch yn fawr i Mr Graham Marsh.



Amser cylch.



PC Alun.





Lan y Mor efo Leigh Denyer.



Gwersi reidio beic

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
Perchnogion:
Gwyn a Janet Evans
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mán
01970 820149
07980 687475

Harddwch Siriol Beauty
07962 861 822
www.facebook.com/siriolbeauty
Brynsiriol,
Bow Street, Ceredigion SY24 5AR

# Ysgol Penrhyn-coch

### Croeso

Hoffwn groesawu Miss Catryn Lawrence atom i'r ysgol fel ein pennaeth newydd. Mae'n gyfnod cyffrous i'r ysgol.

### Urdd

Llongyfarchiadau i'r disgyblion a fuodd yn brysur yn paratoi darnau o waith celf i gystadlaeuaeth rhanbarth Ceredigion. Dyma'r canlyniadau:
1af Gwenan Hedd Jenkins Bl 4 darn D.T,
2il Gwenan Hedd-Ffotograffiaeth,
3ydd Carys James Bl 5-Gwau,
3ydd Elis Wyn Jenkins
Bl 1-Ffotograffiaeth

Da iawn i'r tîm o ddisgyblion a fuodd yn cystadlu yng nghystadlaeuaeth Pêl droed 7 bob ochr,ymdrech dda !

Llongyfarchiadau i'r sawl a redodd nerth eu traed yn Nhrawsgwlad rhanbarth Ceredigion. Dyma'r sawl a redodd:Eddie Rhodes, Clay Nash, Seren Bedder, Cai Williams,Tomos James,Steffan Gillies. Cafodd Steffan y 3ydd safle. Da iawn i chi i gyd



### Eisteddfod Penrhyn-coch

Ar nos Wener 22ain o Ebrill aeth nifer o ddisgyblion yr ysgol i gystadlu yn yr Eisteddfod leol yn Neuadd y Penrhyn. Roedd y disgyblion i gyd wedi gwneud eu gorau ac wedi ennill profiad gwerthfawr iawn ar y llwyfan. Gweler y canlyniadau ar wefan Trefeurig. http://www.trefeurig.org/uploads/canlynnoswener16.pdf




# Cymanfa Ganu

Fel rhan o Gymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion cynhaliwyd oedfa fore Sul Mai 8fed yn Seion, Stryd y Popty. Arweiniwyd y canu gan Alan Wynne Jones. Gwelir ysgolion Sul Pen-llwyn, Bow Street a Horeb, Penrhyn-coch yn ledio'r emynau.


Horeb


Bow Street


Pen-llwyn

Siop
**SGIDIAU GWDIHW**
**Shan Jones**
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL
**01970 617092**
Gwasanaeth
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

**MYNACH GARDEN MAINTENANCE**
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

**ANIFEILIAID TEW**
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
**TEGWYN LEWIS**
**01970 880627**

# Ysgol Rhydypennau

### Eisteddfod Ysgol

Cynhaliwyd Eisteddfod yr ysgol eleni ar yr 24ain o Fawrth. Yn dilyn wythnosau o ymarfer a chwblhau gwaith penodol ar gyfer cystadlaethau dosbarth, daeth yr amser i feirniadu ymdrechion y plant. Roedd hi'n ofynnol fod pob unigolyn yn adrodd neu ganu neu chwarae darn offerynnol. Yn ychwanegol i hyn bu'r beirniad yn dewis y goreuon o'r cystadlaethau dosbarth. Roedd pob tasg yn y gystadleuaeth yn ymwneud â Chymru. Ac ar gyfer y prif gystadleuaeth sef ennill 'Y Gadair', bu blwyddyn 6 yn cyfansoddi cerddi ar y thema 'Fy arwr i'. Roedd ansawdd y cerddi yn arbennig o dda eleni eto, ond, ar ganiad y corn, Chloe Jones o flwyddyn 6 a gododd o ganol y gynulleidfa i gipio'r Gadair. Llongyfarchiadau mawr i Chloe. Dyma ei cherdd am Gymru:-

**'Cymru'**

Gwisgaf fy ngwisg â balchder
wrth ddathlu ein Nawddsant ni;
Cennin Pedr, cawl cennin, Eisteddfod,
a'r Anthem a ganwn ni.

Canrifoedd o ddathlu cystadlu,
Cadeirio y beirdd gorau i gyd.
Hanes, traddodiad a'r iaith hynaf sydd,
Unigryw i bopeth yn y byd.

Ac yma gwelwn gewri o'n cwmpas,
ar y meysydd pêl-droed a ryg-bi.
George North, Gareth Bale a Ramsey gwych,
Heb anghofio am Leigh Half-pen-ny.

A throediwn i fyny i'r Wyddfa,
ein mynydd uchaf i gyd.
Cerdded, trên neu redeg a wnawn,
i weld olygfa gorau'r byd.

Mae cymaint gan Gymru i gynnig,
Y tirwedd, yr hanes a'r iaith.
Gofalu amdanynt i'n plant ni oll,
dyna fydd terfyn ein taith.

*Chloe Jones*

Ac ar ôl cystadlu'n frwd yn ystod y dydd, roedd pwyntiau'r 3 thŷ yn agos iawn; ond Eleri a gariodd y dydd yn y pen draw; Ystwyth ddaeth yn ail gyda Rheidol yn drydydd. Da iawn i bawb am ymdrechu mor galed i sicrhau Eisteddfod lwyddiannus iawn eleni eto. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r beirniaid profiadol am eu doethineb, sef Mrs Delyth Huws a Mrs



**Capteniaid y tîm buddugol-Eleri-Ifan Clubb ac Erin Fielding.**



**Cystadleuaeth y Gadair-Gweni King-ail, Chloe Jones-enillydd, Jamie Thomas-Trydydd a Lili Lyons-'canwr y corn'.**

Bethan Llywelyn. Diolch hefyd i Bleddyn Huws am ddyfarnu cerddi'r Gadair a Kim James-Williams am feirniadu gwaith llaw cystadlaethau'r dosbarth.

### Eisteddfod Yr Urdd

Da iawn i bawb a fu'n perfformio ym Mhontrhydfendigaid yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr a phob lwc i'r Parti Cerdd Dant am lwyddo i ennill a sicrhau lle haeddiannol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Fflint yn ystod hanner tymor fis Mai.



**Mwynhau Wythnos gwyddoniaeth-Ifan Clubb a Nicholas Garrod.**



**Mrs Bethan Davies yn ffarwelio â'r Ysgol.**

### Ffarwelio

Bu'n rhaid ffarwelio gydag aelod profiadol o staff yr ysgol cyn y Pasg; bu Mrs Bethan Davies yn ran o staff yr ysgol am dros ugain mlynedd. Rydym fel ysgol yn diolch o galon i Mrs Davies am ei hymroddiad dros yr holl flynyddoedd ac yn dymuno ymddeoliad hapus iddi.

### Pêl-droed

Ar yr 20fed o Ebrill, bu tîm pêl-droed bechgyn a merched yr ysgol yn cystadlu ym mhencampwriaeth yr Urdd ar gaeau Blaendolau. Cystadleuaeth rhwng holl ysgolion Ceredigion oedd hon ac yr oedd ansawdd y pêl-droed o'r safon uchaf.

Mewn grŵp anodd iawn chwaraeodd y bechgyn yn neilltuol o dda gan guro nifer o dimoedd da iawn. Ond oherwydd gwahaniaeth goliau methu wnaethant i fynd ymlaen i'r rownd gyn-derfynol. Ar y llaw arall brwydrodd y merched yn wych i ennill eu ffordd i'r rownd gyn-derfynol, ond methu wnaethant o drwch blewyn i fynd ymlaen i'r rownd derfynol. Llongyfarchiadau mawr i chwaraewyr y ddau dîm am eu hymdrechion campus.

### Trawsgwlad

Ar y 29ain o Ebrill bu rhai o blant yr ysgol yn brwydro yn erbyn holl ysgolion Ceredigion yng nghystadleuaeth Trawsgwlad y Sir yng Nglwb Rygbi Aberaeron. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am orffen yn y dwsin cyntaf; Erin Hesden Kenny (bl 3), Lleucu Siôn (bl 4), Elen Morgan (bl 5). Ardderchog!

*Ymddiheuriadau i Ysgol Rhydypennau. Trwy amryfusedd gadawyd allan newyddion yr ysgol yn rhifyn Ebrill*

# Tasg y Tincer

Diolch i bawb fu wrthi'n lliwio llun y dylwythen deg a'r chwaraewr pêl-droed y mis diwetha. Dyma'r enwau: Tomos, Capel Bangor; Leah Lockyer, Penrhyn-coch; Dylan Herron, Bow Street; Nel, Caernarfon.

Dy enw di, Tomos, ddaeth o'r het y tro hwn. Hwrê mawr i ti, a diolch i bawb am y lluniau. Daliwch ati!

Mae wythnos Eisteddod yr Urdd bron â chyrraedd. Dwi'n siŵr fod sawl un o ardal *Y Tincer* yn cystadlu – yn dawnsio, chwarae offeryn, sgwennu stori, tynnu llun, canu ... pob lwc i bawb! A bydd nifer ohonoch yn ymweld â'r maes yn y Fflint hefyd er mwyn cael blas ar yr ŵyl ... ond faint wyddoch chi am ardal yr Eisteddfod?

Mae Sir y Fflint yng ngogledd-ddwyrain Cymru.

13% o boblogaeth y sir sy'n siarad Cymraeg.

Mae gan sawl person enwog gysylltiadau â'r rhan hon o Gymru. Beth am ddechrau efo byd y campau – Michael Owen, Mark Hughes a Jade Jones.


A beth am bobl o fyd llyfrau – Daniel Owen, Kate Roberts,Tegla Davies ac I. D. Hooson.

Mae'n siŵr eich bod wedi gweld Rhys Ifans a Llŷr Ifans ar y sgrin fach (a mawr), ynghyd â Caryl Parry Jones. Mae gan Russell Crowe a Tom Cruise gysylltiadau â Sir y Fflint, gredwch neu beidio, ac mae lluniwr Tasg y Tincer bob mis wedi'i eni yn Sir y Fflint! Beth am ddysgu mwy am y sir ddiddorol hon? Edrychwch ar y we, ac mae'n siŵr y bydd digon o wybodaeth ar gael ar faes yr Eisteddfod hefyd.

Y mis hwn, lliwiwch lun y babell fawr fydd i'w gweld yn y Fflint. Beth am roi'r ddraig goch ar y baneri? Anfonwch eich llun i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Mehefin 1af. Ta ta tan toc!



Tomos



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn | Oed


**M THOMAS**
**Plymwr Lleol**
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
**07968 728470**
**01970 820375**

**TACSI EDDIE**
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH



ISSN 0963-925X
9 770963 925009